



**Cofnodion Cyfarfod Awdurdod S4C
11 Mai, 2017, S4C, Llanisien, Caerdydd**

Cyfarfod Rhif 407

Presennol:	Huw Jones John Davies Siân Lewis Elan Closs Stephens Hugh Hesketh Evans	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Gwyn Williams Amanda Rees Phil Williams Bethan C. Williams Catrin Hughes Roberts Sharon Winogorski Garffild Lloyd Lewis Huw Jones	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 5.1 (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 5-10 (Cyfarwyddwr Adleoli a Phrosiectau) – eitem 5.3 (Uwch Swyddog Dadansoddi) – eitem 6
Ymddiheuriadau	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)

MATERION SEFYDLOG:

- 1. Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, ac yn enwedig Elan yn dilyn cadarnhad ei phenodiad yn Aelod annibynnol o'r Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ddiweddar. Esboniodd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu cadarnhau parhad penodiad Elan fel aelod o'r Awdurdod gan fod Ymddiriedolaeth y BBC wedi dod i ben ym mis Ebrill.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.
- 2. Cofnodion cyfarfod 406, Nodiadau Cyfarfod Trafod fis Ebrill a gynhaliwyd 13eg Ebrill, a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 406 (a gynhaliwyd ar 09.03.17) a nodiadau o'r cyfarfod trafod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill.

Nodwyd y materion canlynol.

 - 2.1. [Crynodeb: Cyfeiriwyd at deitl y cofnodion a dau gywiriad ieithyddol i'r cofnodion].**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod fis Mawrth gan ymgorffori'r newidiadau uchod.

Nodiadau o gyfarfod anffurfiol fis Ebrill

[Crynodeb: Cyflwynwyd nodiadau cyfarfod anffurfiol fis Ebrill ac esboniwyd nad oedd cworwm o Aelodau'n bresennol, ac felly ni chynhaliwyd cyfarfod busnes yr Awdurdod ym mis Ebrill.]

Cafwyd cyflwyniad gan gwmni Beaufort parthed dracio delwedd S4C yn 2016-17, a chylchredwyd copi o'r cyflwyniad i'r Aelodau.

Cafwyd trafodaeth am gwestiynau'r arolwg a'u perthnasedd i wasanaeth S4C heddiw. Awgrymwyd y gellid ystyried diweddarau'r cwestiynau, ond oherwydd natur hir dymor arolwg tracio, nodwyd yr angen i sicrhau cysondeb cwestiynau.

Aelodaeth yr Awdurdod

Cyfeiriodd y Cadeirydd at aelodaeth yr Awdurdod, gan nodi ei fod yn falch iawn y bydd ECS yn parhau yn aelod tan 2018, ond nododd ei fod yn dal i boeni am y pwysau sydd ar yr aelodau yn sgil diffyg penodi aelodau newydd gan DCMS. Bydd tymor rhai aelodau eraill yn dod i ben yn 2018, ac felly mae'r angen i sicrhau aelodaeth lawn yn fuan yn mynd yn gynyddol bwysig.

Esboniodd ei fod wedi bod yn trafod penodiadau newydd gyda DCMS ers 2016, a bod nifer o ddyddiadau wedi eu cytuno ar gyfer yr ymgyrch hysbysebu, ond fod nifer o faterion, nad oedd yn gysylltiedig gydag S4C wedi codi o fewn y Llywodraeth sydd wedi amharu ar y broses. Roedd yn gobeithio na fyddai amseru adolygiad DCMS yn effeithio ar y broses benodiadau. Mae'r holl ddogfennau perthnasol wedi eu cytuno gyda DCMS ers Rhagfyr 2016, a gobeithir y bydd modd lansio'r ymgyrch yn fuan wedi'r etholiad cyffredinol.

Nododd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda Claire Pillman yn DCMS er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cyhoeddi'r swyddi gwag yn dilyn yr etholiad cyffredinol.

Cofnod 5.1.4 – nodwyd mai enw'r cwmni elusennol oedd Hanfod yn hytrach na Hapnod.

3. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a Materion yn codi**

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau er gwybodaeth.

Yr Egin - nododd IHJ ei fod wedi derbyn llythyr gan Is-Ganghellor PCDDS ym mis Ebrill, a bod copi wedi ei gylchredeg i'r Aelodau.

Diweddariad i'r Cynllun Ariannol 5 mlynedd. Nodwyd y bydd ShW yn cyflwyno diweddariad i'r cynllun yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Pwyllgor Iaith a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol

Bydd y Cadeirydd ac IHJ yn cyflwyno tystiolaeth bellach i'r Pwyllgor wythnos nesaf. Bydd yn gyfle i ymateb i nifer o bwyntiau sydd wedi codi yn ystod sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at sylwadau gan rai tystion yn ymwneud â pherthynas S4C ac Ofcom, gyda rhai'n awgrymu y dylai S4C gael ei reoleiddio gan Ofcom, neu y dylai Ofcom drwyddedu gwasanaeth S4C. Roedd yn ymddangos fod elfen o ddryswch yn perthyn i'r pwnc, gan fod S4C eisoes yn cael ei reoleiddio gan Ofcom, gydag S4C yn talu ffi rheoleiddio flynyddol o £16k i Ofcom, a'r Ddeddf Gyfathrebiadau'n rhoi'r hawl i Ofcom ddirwyo S4C.]

Awgrymwyd bod angen esbonio'n gliriach i randdeiliaid bod Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau S4C. Gellid cyfeirio at faterion megis gallu Ofcom i ddirwyo S4C, bod S4C yn darparu gwybodaeth sylweddol i Ofcom yn rheolaidd parthed perfformiad gwasanaethau S4C, bod gan S4C berthynas gydag Ofcom eisoes a bod S4C yn talu ffi rheoleiddio i Ofcom.

Trafodwyd yr awgrym a wnaed gan rai i'r Pwyllgor y dylai S4C gymryd cyfrifoldeb dros faterion ehangach, megis darlledu Cymraeg yn ei gyfanrwydd, a rhoi cyfrifoldeb ar S4C i hyrwyddo'r Gymraeg ac ariannu sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Mynegwyd pryder am yr argymhelliad, gan nodi fod risg y byddai S4C maes o law yn troi'n gorff a chronfa ariannu ar gyfer holl weithgareddau Cymraeg y Llywodraeth, ac y byddai hyn yn peryglu gallu S4C i ddarparu, ac ariannu, gwasanaeth teledu ac ar-lein Cymraeg.

Byddai hyn hefyd yn cyfyngu ar amrywiaeth y cyfryngau a gweithgareddau Cymraeg.

Awgrymwyd fod angen parhau i egluro sut y mae S4C yn gallu chwarae rhan bwysig o ran datblygu a hyrwyddo'r iaith, a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, heb ddod yn gorff datblygu ieithyddol yn hytrach na darlledwr.

Cyfarfod swyddogion Cymdeithas yr Iaith

[Crynodeb: Roedd y Cadeirydd ac ST wedi cyfarfod cynrychiolaeth o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cafwyd trafodaeth agored a chynhwysfawr am nifer o faterion]

Trefniadau arfaethedig gyda Bwrdd Unedol y BBC: Adroddiad Sicrwydd Ariannol drafft

Cyfeiriwyd at yr Adroddiad drafft a gyflwynwyd i'r cyfarfod trafod ym mis Ebrill a nodwyd ei fod yn cynnwys awgrym o'r math o wybodaeth y byddai'n briodol i'w gyflwyno i Fwrdd Unedol y BBC ddwywaith y flwyddyn. Penderfynodd yr Awdurdod fod y drafft yn addas i'w drafod gyda'r BBC.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Adroddiad Partneriaethau ar gyfer 2016-17

Cyflwynodd CHR adroddiad ar waith yr adran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r cynlluniau i'r dyfodol. Nodwyd fod ST, SH a GG wedi cynnal llawer o'r gwaith yn ystod cyfnod mamolaeth CHR.

Cyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

- Roedd cynllun o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer y digwyddiadau haf, gan gynnwys partneriaethau megis Sinemaes, a defnydd o adeilad S4C gan bartneriaid.
- Roed partneriaeth Bafta Cymru wedi bod yn llwyddiannus, gan alluogi BAFTA i gynnal dangosiadau y tu allan i Gaerdydd a chyrraedd cynulleidfa newydd.
- Mae trafodaethau'n parhau gyda Chanolfan y Mileniwm er mwyn datblygu'r bartneriaeth ymhellach.
- Mae cynllun Labordy II yn cael ei ddatblygu gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Bydd newidiadau i gynllun Bardd Plant Cymru flwyddyn nesaf. Er bod y cynllun wedi cynnig cyfleoedd i S4C yn y gorffennol, gan fod cynulleidfa darged y cynllun yn hyn na chynulleidfa Cyw, nid yw'n cynnig yr un cyfleoedd i hyrwyddo'r ddarpariaeth ar-sgrin.
- Sefydlwyd partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg newydd a gobeithir y bydd cyfleoedd i S4C a'r Ganolfan gydweithio wrth i'r Ganolfan ddatblygu maes llafur newydd ar gyfer Cymraeg i Oedolion.

[Crynodeb: Holwyd am greu partneriaeth gyda CBAC. Esboniodd CHR fod sefydlu

partneriaeth gyda CBAC yn ddeisyfiad, ond bod y trafodaethau'n parhau.]

Y Cynllun Adleoli – diweddariad sefyllfa staffio

- [Crynodeb: Cyflwynodd GLL ddiweddariad ar y cynllun adleoli, ac esboniodd fod y broses o gynnal cyfarfodydd un-i-un gyda'r aelodau staff sydd â'u swyddi'n adleoli i'r Egin wedi ei gwblhau. Er nad oedd gofyn i staff wneud ymrwymiad di-droi'n ôl ar hyn o bryd, roedd nifer fawr o'r staff wedi nodi eu penderfyniad. Cyflwynwyd gwybodaeth parthed penderfyniadau'r staff sydd â'u swyddi'n symud i'r Egin.]

Holwyd a oedd gan swyddogion bryderon y gallai'r staff sydd wedi cytuno i gyfnod pontio adael naill ai yn ystod neu ar ddiwedd y cyfnod, ac a allai hyn fod yn risg mwy na chyfnod y symud ei hun.

Esboniodd GLL y gall risgiau godi yn ystod ac ar ddiwedd y cyfnod pontio, yn enwedig gan fod cyfnodau rhybudd staff yn gymharol fyr, gyda'r mwyafrif yn gorfod rhoi rhwng 1 a 2 fis o rybudd.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am opsiynau ar gyfer lleoliad nifer o staff a swyddogaethau penodol.]

[Crynodeb: Holwyd am allu S4C i recriwtio talent newydd yn ardal Caerfyrddin. Eglurodd GLL fod ffrwd gwaith sy'n cynnwys recriwtio a thalent mewnol yn cael ei ddatblygu. Eglurwyd fod bwriad i fynychu ffeiriau swyddi yng Nghaerfyrddin er mwyn hysbysebu'r math o swyddi a allai fod ar gael yn S4C yn y dyfodol.]

Cyflwynodd ShW ddiweddariad o'r rhagamcanion ariannol ar gyfer costau pecynnau adleoli a diswyddo. Esboniwyd fod y ffigyrau'n parhau i fod yn ragamcanion, ac ni fydd modd gwybod yn bendant beth fydd costau terfynol y prosiect tan ar ôl diwedd y cyfnodau pontio (6 mis a 12 mis). Serch hyn roedd ystod o scenarios wedi eu datblygu sy'n nodi'r costau tebygol ynghyd ag uchafswm cost y prosiect.

Roedd nifer o staff eisoes wedi bod ar ymweliad gyda safle'r Egin ac wedi cael cyfle i weld yr adnoddau fydd ar gael i staff S4C ar gampws y brifysgol. Roedd yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol hyd yma a nodwyd y bydd cyfleoedd i ragor o staff ymweld â'r safle dros y misoedd nesaf.

Nodwyd y byddai cyfle i Aelodau'r Awdurdod ymweliad â'r safle yn ystod y prynhawn cyn y Noson Gwylwyr ar 25 Mai. Bydd GLL yn cydlynu'r trefniadau ar gyfer Aelodau sy'n dymuno ymweld.

Cytundeb arfaethedig y TSA

[Crynodeb: Nodwyd y bydd angen cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Adleoli a Chytleoli maes o law er mwyn craffu cynnydd yn y trafodaethau'n ymwneud â Ch gyda'r BBC ac argymhelliad ar gyfer manylion pryddles yr Egin.

Polisi Darllediadau Gwleidyddol, Darllediadau Etholiadol a Darllediadau Refferendwm

Cyflwynwyd diweddariad i Bolisi Gwleidyddol, Darllediadau Etholiadol a Darllediadau Refferendwm S4C. Esboniwyd fod gofyn statudol i Awdurdod S4C gynnwys darllediadau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm ar S4C, i gyhoeddi polisi ar gyfer sut y bydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon, ac i adolygu a diwygio'r polisi hwnnw o dro i dro. Wrth adolygu'r polisi, mae'n rhaid i Awdurdod S4C nodi'r rheolau a wnaed gan Ofcom mewn perthynas â darllediadau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm. Mae Ofcom wedi newid ei rheolau yn y maes yn ddiweddar.

Yn dilyn ymgyngoriad cyhoeddus yn Ionawr 2017, cyhoeddodd Ofcom eu penderfyniad i

ddiwygio eu rheolau ar ddarllediadau gwleidyddol a darllediadau refferendwm. Esboniwyd fod yr argymhelliad a gyflwynwyd yn ymateb i newidiadau i Reolau Ofcom.

Wrth ystyried dyrannu slotiau Darllediadau Gwleidyddol (PPBs), mae rheolau newydd Ofcom yn nodi y dylid cynnig un neu fwy o PPBs i bleidiau sydd â sedd mewn senedd/cynulliad perthnasol mewn gwlad berthnasol o'r DU, a bod tystiolaeth o gefnogaeth etholiadol blaenorol ac/neu gefnogaeth gyfredol yn golygu y byddai'n briodol i wneud hynny. Mae'r rheolau'n parhau i nodi y dylai'r slotiau gael eu cynnig yn yr Hydref, Gaeaf a'r Gwanwyn. Wrth ystyried dyrannu slotiau Darllediadau Etholiadol (PEBs), mae rheolau newydd Ofcom yn parhau i nodi y dylai pleidiau sy'n sefyll ymgeiswyr yn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi dderbyn un PEB. Mae'r rheolau'n nodi y dylai pleidiau dderbyn slotiau ychwanegol os yw'r dystiolaeth o'u cefnogaeth etholiadol blaenorol a/neu gefnogaeth gyfredol yn golygu y byddai'n briodol gwneud hynny. Dylid ystyried pedair gwlad y DU ar wahân. Bellach, nid oes cyfeiriad at 'bleidiau mwy' yn y rheolau.

Esboniwyd fod cwmni wedi eu comisiynu i baratoi adroddiad ac argymhelliad yn seiliedig ar berfformiad y pleidiau yn ystod etholiadau diweddar.

Cafwyd trafodaeth am sut i ddelio gyda chwynion oddi wrth y pleidiau parthed polisi S4C, a nodwyd y byddai unrhyw gwyn yn cael ei drin yn unol â'r polisi cwynion cyffredinol. Roedd yn debygol hefyd y byddai unrhyw blaid sy'n dewis cwyno naill ai'n cwyno i'r BBC neu ITV cyn S4C.

Cymeradwywyd y polisi diwygiedig gan yr Awdurdod.

MATERION CHWARTEROL

6. Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 4, 2016-17

Cyflwynodd AR yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Chwarter 4 2016-17 a chyfeiriodd yn benodol at y materion isod.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am genres a chyfresi gan gynnwys plant a phobl ifanc, chwaraeon, drama, ffeithiol, comedi ac adloniant,

Nodwyd fod bwriad i gyfuno rhagor o wybodaeth am weithgareddau hyrwyddo sy'n gysylltiedig gyda'r ddarpariaeth yn yr adroddiadau chwarterol er mwyn gallu asesu perfformiad y ddarpariaeth o ran ymwybyddiaeth y gynulleidfa a pherfformiad y gwasanaeth.

7. Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys (a gynhaliwyd ar 27.04.17)

[Crynodeb: Cyflwynodd y Cadeirydd grynoded o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 27 Ebrill a nodwyd mai prif waith y Pwyllgor oedd ystyried perfformiad y ddarpariaeth chwaraeon. Cafwyd cyflwyniad gan Sue Butler ar berfformiad yr arlwy chwaraeon.]

8. Adroddiad Dadansoddi Chwarter 4, 2016-17

Nododd HJ y bydd naratif yr adroddiad blynyddol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad o berfformiad y gwasanaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad Dadansoddi.

[Crynodeb: Roedd cyrhaeddiad y flwyddyn i fyny 3% yng Nghymru, gyda chynnydd o 7% ymysg siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ond roedd cyrhaeddiad tu allan i Gymru wedi gostwng 8%. Roedd perfformiad gem beldroed Cymru v. Iwerddon wedi cyfrannu'n

sylweddol at gyfartaledd wythnosol y gwasanaeth.]

Roedd cyfanswm sesiynau gwyllo arlein wedi disgyn, gyda chwmp o ran ffigyrau iPlayer, ond cynnydd bach i sesiynau gwyllo S4C Arlein. Roedd dulliau adrodd y BBC wedi newid yn ystod y flwyddyn, ac mae'n debyg fod hyn wedi effeithio ar y ffigyrau, gyda ffigyrau'r gorffennol o bosibl yn gor-adrodd perfformiad rhai rhaglenni megis cartwnau plant.

Roedd patrymau newydd yn dal i ddatblygu o ran y defnydd o gynnwys rhaglenni a ffurf fer arlein, gyda chynnydd sylweddol o ran ffigyrau gwyllo ar Facebook. Erbyn hyn ceir oddeutu 2 filiwn o sesiynau gwyllo fesul mis ar Facebook, gyda chyfanswm o 18 miliwn o sesiynau yn ystod 2016/17.

Wrth ychwanegu'r sesiynau hyn, roedd nifer y sesiynau gwyllo arlein wedi cynyddu'n sylweddol. Nodwyd y bydd hyn yn ran o naratif yr Adroddiad Blynyddol.

9. Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 4, 2016-17

Cyflwynodd GW adroddiad Cyfathrebu Chwarter 4, 2016-17, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Gwaith Cartref

Cynhaliwyd gweithdai mewn ysgolion uwchradd yn y De Ddwyrain lle cafodd disgyblion gyfle i drosleisio golygfa o'r gyfres, cyn iddo gael ei ddangos ar Facebook. Llwyddodd y cynllun i gyrraedd 100,000 o bobl.

Jonathan

Nodwyd fod amserlenni'r cyflwynwyr yn ei gwneud yn anodd i gydlynu unrhyw weithgareddau hyrwyddo, ond gobeithir ffilmio fideo hyrwyddo ar gyfer y gyfres nesaf.

Dydd Gŵyl Dewi

Cynhyrwyd idents arbennig ar gyfer dydd Gŵyl Dewi mewn cydweithrediad gyda myfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Safonau Iaith

Nodwyd fod angen ail-gynllunio Sbec, mewnwyd S4C er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau Iaith a bod gwaith ar y gweill i ddatblygu mewnwyd newydd.

Sylwebaeth Saesneg ar y botwm coch

Nodwyd fod nifer o gwynion am ddiffyg sylwebaeth Saesneg ar gêm y Sgarlets wedi eu derbyn. Roedd staff y Wifren wedi derbyn briff, er mwyn ceisio esbonio'r cyfyngiadau sydd ar S4C o ran hawliau darlledu.

Awgrymwyd y dylid sicrhau fod unrhyw neges sy'n cael ei roi i'r gwylwyr yn esbonio unrhyw gyfyngiadau'n glir ac yn syml heb fanylu ar faterion cytundebol.

10. Adroddiad Ariannol Chwarter 4, 2016-17

[Crynodeb: Cyflwynodd ShW adroddiad Ariannol Chwarter 4, 2016-17]

Diolchwyd i ShW am ei hadroddiad a nodwyd gwerthfawrogiad yr Awdurodd o waith y Tim Cyllid a chanfyddiadau cadarnhaol gwaith archwilio Grant Thornton.

11. Adroddiad Blynyddol 2016-17 - diweddariad

Rhoddyd diweddariad ar baratodau'r Adroddiad Blynyddol a nodwyd fod cyhoeddi Etholiad Cyffredinol wedi creu peth dryswch o ran gosod a chyhoeddi adroddiadau blynyddol eleni. Mae DCMS yn disgwyl derbyn rhagor o wybodaeth o'r Llywodraeth parthed amserlen y Senedd yn dilyn yr etholiad. Yn y cyfamser, esboniwyd mai'r bwriad oedd parhau i baratoi'r adroddiad yn y gobaith y gellir ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Nodwyd y bydd drafft o'r adroddiad, yn seiliedig ar y naratif perfformiad a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi, yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Mehefin.

12. Adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 5 Ebrill a chyfarfod cyn cyfarfod yr Awdurdod gynhaliwyd ar yr 11eg o Fai

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mai lle cafwyd cyfle i drafod adroddiadau'r archwilwyr mewnol.

Cyflwynodd HHE adroddiad llafar am drafodaeth y Pwyllgor, a gynhaliwyd ar yr 11eg o Fai, a nodwyd fod holl Aelodau'r Awdurdod wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor er mwyn trafod y Datganiad Ariannol.

Nodwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried y Datganiad Ariannol drafft ac adroddiad yr archwilwyr allanol, Grant Thornton, ar gyfer y flwyddyn. Nodwyd nad oedd gan Grant Thornton na'r Pwyllgor unrhyw bryderon i'w nodi parthed cynnwys y Datganiad Ariannol, ond bod yr archwilwyr yn parhau i fod eisiau rhagor o wybodaeth parthed rhai elfennau o bortffolio buddsoddiadau ecwiti S4C Masnachol. Roedd Grant Thornton angen ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol, PWC cyn cyflwyno'u hadroddiad yn derfynol. Nodwyd fod disgwyl i PWC gyflwyno'u hadroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 25 Mai.

Cyflwynodd HHE argymhelliad y Pwyllgor i'r Awdurdod i gymeradwyo'r Datganiad Ariannol. Cymeradwywyd y Datganiad Ariannol gan yr Awdurdod.**13. Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 3 Mai**

Cyflwynwyd crynodeb o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 3 Mai.

Esboniwyd y bydd cyfle am drafodaeth ar weithgareddau'r Bwrdd Masnachol yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Gorffennaf.

Fferm Cyw

[Crynodeb: Cyflwynwyd adroddiad cynnydd prosiect Fferm Cyw. ,

Esboniwyd nad oedd penderfyniad wedi ei wneud parthed safle derfynol gan y Bwrdd Masnachol, a bod swyddogion yn parhau i ystyried opsiynau eraill ar gyfer lleoliadau posibl Fferm Cyw.

Holwyd yn ogystal a oedd gwaith dichonolrwydd addas wedi ei gyflawni o ran ystyried addasrwydd lleoliad atyniad o'r fath yn y Gogledd yn hytrach nac mewn ardaloedd eraill o Gymru sydd â phoblogaeth fwy a lle mae twf sylweddol o ran plant sy'n siarad Cymraeg. Nodwyd fod gwaith dichonolrwydd trylwyr wedi ei wneud gan swyddogion S4C Masnachol, ac yn ogystal gan nifer o ymgynghorwyr ar ran y Bwrdd.

Cyfeiriwyd at gwestiwn diweddar yr Awdurdod parthed 'hirhoedledd' brand Cyw ac esboniwyd fod swyddogion wedi ystyried hirhoedledd y brand, a'u bod o'r farn fod potensial i ddatblygu'r brand ymhellach yng Nghymru, ac o ran gwerth masnachol y brand

fel fformat y gellid ei werthu'n rhyngwladol.

14. Adroddiad Gwifren Gwylwyr

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

15. Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth

[Crynodeb: Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion wedi eu derbyn gan yr Adran Gyfathrebu oedd angen eu dwyn i sylw'r Awdurdod. Cyfeiriwyd at ddwy gwyn sydd wedi derbyn ymateb oddi wrth swyddfa'r wasg.]

Nodwyd bod y Pwyllgor yn disgwyl derbyn cyngor annibynnol parthed y cais am adolygiad mewnol cais FOI, ac y bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod i drafod y mater pan fydd y cyngor wedi ei dderbyn.

16. Ystyried Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2017 – 18

Cyflwynwyd diweddariad i Raglen Waith yr Awdurdod 2017 – 18 er gwybodaeth.

17. Unrhyw Fater Arall

Cyfarfod yr Awdurdod ym mis Gorffennaf

Nodwyd fod seremonïau graddio prifysgolion yn ei gwneud yn anodd canfod gwestai ar gyfer Aelodau ym mis Gorffennaf. Penderfynwyd parhau gyda chyfarfod 13 Gorffennaf, heb newid lleoliad, ond ceisio gwestai ar gyfer Aelodau tu allan i Gaerdydd.

Nodwyd y bydd cyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi yn gwrthdaro gyda chynhadledd yr RTS yng Nghaergrawnt. Bydd swyddogion yn ceisio canfod dyddiad newydd ar gyfer y cyfarfod fydd yn gyfleus i fwyafrif yr Aelodau.

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau, 8 Mehefin 2017 yng Nghaerdydd